Meddwl am weithio i chi eich hun?

Cyllid & Tollau EM

Mae yna nifer o fideos ar-lein byr i'ch helpu i ddeall yr elfennau gwahanol o ddechrau busnes. Ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp** i weld y fideos hyn sy'n ymdrin â:

Cadw cofnodion
Cyflogi pobl eraill
Diwydiant Adeiladu
Lwfansau busnes
Mewnforio ac allforio
TAW
Treth Gorfforaeth
Treth Incwm ar gyfer yr hunangyflogedig
Ymsefydlu mewn busnes
Yswiriant Gwladol ar gyfer yr hunangyflogedig

Mae yna hefyd fideos byr, sef y 'Start Up Diaries'. Mae'r rhain yn dilyn tri busnes newydd drwy gyfnodau da a drwg eu blwyddyn gyntaf. I weld y fideos hyn, ewch i www.businesslink.gov.uk/taxhelp

Felly mae gennych syniad ac rydych am gychwyn ar eich pen eich hun? Dyma ychydig o wybodaeth all fod o ddefnydd i chi.

Camau nesaf pwysig

Pan fyddwch yn dechrau gweithio i chi eich hun, bydd angen i chi dweud wrth Gyllid a Thollau EM (CThEM). Gall CThEM eich helpu i ddeall beth sydd angen i chi ei wneud ynglŷn â threth i osgoi camgymeriadau.

I gofrestru gyda CThEM yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw ymweld â **www.businesslink.gov.uk/taxhelp** neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0845 302 1489** a rhowch eich manylion chi a'ch busnes iddynt. Os ydych yn cychwyn cwmni cyfyngedig, bydd angen i chi gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau yn gyntaf. Bydd Tŷ'r Cwmnïau'n hysbysu CThEM a fydd yna'n anfon pecyn cyflwyno atoch sy'n cynnwys y ffurflen CT41G (manylion cwmni newydd). Cwblhewch y ffurflen er mwyn hysbysu CThEM eich bod wedi cychwyn mewn busnes.

Os cewch broblemau neu os nad ydych yn siŵr os ydych yn bodloni'r rheolau hunangyflogaeth, ewch i **www.hmrc.gov.uk/startingup** am fwy o wybodaeth neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg. Os ydych yn ddi-waith ar hyn o bryd, peidiwch ag anghofio dweud wrth y ganolfan byd gwaith eich bod wedi dechrau gweithio i chi eich hun.

Mae arweiniad defnyddiol, 'Giving your business the best start with tax', ar gael yn **www.businesslink.gov.uk/taxhelp** Mae'n ymdrin â materion pwysig fel Treth Incwm, Yswiriant Gwladol a chadw cofnodion.

Yn hunangyflogedig, partneriaeth, cwmni cyfyngedig neu fasnachfraint

Yn hunangyflogedig – unigolyn

Golyga hyn eich bod yn gweithio i chi eich hun, er bod gennych, efallai, bobl yn gweithio i chi hefyd. Byddwch yn talu Treth Incwm ar eich elw trethadwy drwy Hunanasesiad. Efallai bydd angen i chi hefyd dalu Yswiriant Gwladol hefyd.

Os ydych yn cyflogi pobl, bydd yn rhaid i chi weithredu TWE (Talu Wrth Ennill) ar eu henillion yn y mwyafrif o achosion, ac anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr at CThEM ar-lein.

Partneriaeth

Partneriaeth yw lle mae dau neu fwy o bobl yn sefydlu busnes gyda'i gilydd. Mae pob partner yn gyfrifol yn bersonol am holl ddyledion y busnes, hyd yn oed os achoswyd y ddyled gan bartner arall. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut i wneud eich Hunanasesiad ewch i wefan CThEM yn **www.hmrc.gov.uk/payinghmrc** a dewiswch 'Self Assessment (Income Tax and Capital Gains Tax)'.

Cwmni cyfyngedig

Mae cwmni cyfyngedig wedi ei wahanu'n gyfreithiol oddi wrth ei gyfranddalwyr neu gyfarwyddwyr. Golyga hyn fod y cwmni'n atebol am unrhyw ddyled.

Gall rheoli treth a chyfrifon ar gyfer cwmnïau cyfyngedig fod yn gymhleth. Bydd cyfreithiwr neu gyfrifydd yn gallu cynnig cyngor ynglŷn â sefydlu cwmni cyfyngedig ac mae gan CThEM nifer o arweiniadau defnyddiol ynglŷn â Threth Gorfforaeth. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/ct**

Masnachfraint

Mae rhedeg masnachfraint yn golygu eich bod yn gwneud cytundeb gyda rhoddwr y fasnachfraint. Gall fod yn gymhleth felly dylech bob tro gael cyngor cyfreithiol. Am arweiniad cyffredinol fodd bynnag, ewch i **www.thebfa.org** neu ffoniwch y 'British Franchise Association' ar **0123 582 0470**

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'Welcome – Setting up in Business', ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Cadw cofnodion

Mae'n hanfodol cadw cofnodion llawn a chywir o'ch incwm a'ch treuliau o'r cychwyn. Mae cadw cofnodion yn gwneud synnwyr busnes da ac mae'n ofyniad cyfreithiol. Mae'n bwysig felly cael system addas mewn lle o'r cychwyn, a diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd.

Hefyd, mae cadw cofnodion yn bwysig gan **y cyflwynwyd cosbau ym mis Ebrill 2009 am beidio â chymryd gofal rhesymol** gyda chofnodion a ffurflenni treth.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chymryd gofal rhesymol, efallai bydd yr adnoddau canlynol yn ddefnyddiol i chi:

- Taflen wybodaeth ynglŷn â chadw cofnodion **www.hmrc.gov.uk/factsheet/record-keeping.pdf**
- Arweiniad cyffredinol ar gadw cofnodion ar gyfer eich ffurflen dreth – RKBK1 – **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/dogfennauathaflenni_defnyddiol.htm**
- Fideo ar-lein byr ar gadw cofnodion **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**
- Offeryn gwerthuso cadw cofnodion **www.businesslink.gov.uk/recordkeepingcheck**
- Cosbau newydd **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Cofiwch, eich cyfrifoldeb chi (hyd yn oed os ydych yn cyflogi cyfrifydd neu ymgynghorydd treth i wneud hyn i gyd ar eich rhan) yw sicrhau bod pob ffurflen dreth wedi'i llenwi'n gywir ac wedi eu derbyn gan CThEM mewn da bryd. Hefyd, cofiwch dalu eich Treth Incwm a'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac – os oes gennych gyflogeion – i sefydlu cynllun TWE a gweithredu TWE yn gywir.

Hunanasesiad

Os ydych yn hunangyflogedig, rydych yn talu Treth Incwm drwy Hunanasesiad. Ar ôl i'r flwyddyn dreth ddod i ben ar 5 Ebrill, bydd angen i chi gwblhau ffurflen dreth Hunanasesiad. Gallwch ei wneud naill ai ar lein neu drwy lenwi ffurflen bapur.

Os ydych yn cwblhau **ffurflen dreth bapur mae angen i chi sicrhau ein bod wedi ei derbyn erbyn 31 Hydref.** Efallai codir cosb arnoch os derbynnir eich ffurflen dreth bapur ar ôl y dyddiad hwn.

Os dewiswch wneud eich **ffurflen dreth ar-lein, mae angen i chi sicrhau ein bod wedi ei derbyn erbyn 31 Ionawr** y flwyddyn ddilynol, sy'n rhoi tri mis ychwanegol i chi. Os yw'n hwyr, efallai codir cosb arnoch.

P'un a ddewiswch gwblhau ffurflen dreth bapur neu'n dewis ei wneud ar-lein, bydd angen i chi hefyd dalu unrhyw dreth sy'n ddyledus gennych erbyn 31 Ionawr. Os talwch eich treth yn hwyr, codir llog arnoch o'r dyddiad yr oedd eich treth yn ddyledus ac efallai y codir trethi ychwanegol arnoch a elwir yn ordaliadau.

Am ragor o gymorth ewch i **www.hmrc.gov.uk/sa** neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0845 302 1489**

I wylio fideo byr ar-lein, sef 'Income Tax for the Self-employed', ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Telir cyfraniadau Yswiriant Gwladol gan bron bawb sy'n gweithio ac maent yn mynd tuag at dalu am bensiynau, budd-daliadau a gofal iechyd. Os ydych yn hunangyflogedig, mae dau fath o gyfraniadau Yswiriant Gwladol y mae angen i chi wybod amdanynt.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2

Mae'r mwyafrif o bobl hunangyflogedig yn gorfod talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 ond mewn amgylchiadau penodol gallech gael eich eithrio rhag talu. Rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 fel swm sefydlog drwy Ddebyd Uniongyrchol.

Am ragor o wybodaeth am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, gan gynnwys eithriadau, ewch i **www.hmrc.gov.uk/working** a dewiswch 'Self-employed tax and National Insurance'.

I wneud cais am eithriad rhag talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 (os bydd eich enillion yn isel), lawrlwythwch ffurflen CF10 'Pobl hunangyflogedig ag enillion bach' yn **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/ffurflenniathaflenni_defnyddiol.htm**

Am ragor o wybodaeth am sefydlu eich Debyd Uniongyrchol neu dalu trwy ddull arall, ewch i **www.hmrc.gov.uk/payinghmrc** a dewiswch 'Self-employed Class 2 National Insurance'.

Mae yna hefyd weithdai defnyddiol a digwyddiadau Gair i Gyflogwr. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 os yw eich elw trethadwy blynyddol dros swm penodol. Mewn amgylchiadau penodol gallech fod wedi eich eithrio rhag talu. Rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 ar yr un pryd â'ch Treth Incwm os ydych yn hunangyflogedig neu mewn partneriaeth. Os yw eich priod yn hunangyflogedig hefyd, mae'r ddau ohonoch yn talu cyfraniadau Dosbarth 4 eich hunan.

Am ragor o wybodaeth am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 – gan gynnwys eithriadau – ewch i **www.hmrc.gov.uk/working** a dewiswch 'Self-employed tax and National Insurance'.

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'National Insurance – for the self-employed', ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Treth Gorfforaeth

Os ydych yn rhedeg cwmni cyfyngedig efallai y bydd yn rhaid i chi dalu Treth Gorfforaeth. Mae Treth Gorfforaeth yn dreth ar elw trethadwy eich cwmni.

Mae llawer i'w wybod am Dreth Gorfforaeth ac mae llawer o bobl yn dewis defnyddio cyfrifydd i'w helpu i reoli hyn. Gallwch hefyd gael cymorth gyda'r hanfodion yn **www.hmrc.gov.uk/ct**

Eich cyfrifoldeb chi - hyd yn oed os ydych yn cyflogi cyfrifydd - yw sicrhau bod yr holl ffurflenni treth angenrheidiol wedi'u cwblhau ar amser.

O Ebrill 2011, mae'n rhaid i holl Ffurflenni Treth Cwmni gael eu cyflwyno ar-lein a rhaid i chi dalu eich Treth Gorfforaeth a thaliadau cysylltiedig fel llog a chosbau yn electronig. Os ydych yn cyflwyno'ch ffurflen dreth yn hwyr, efallai bydd yn rhaid i chi dalu cosb. Os ydych yn talu eich Treth Gorfforaeth yn hwyr neu ddim yn talu digon, codir llog arnoch.

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'Corporation Tax', ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Pobl hunangyflogedig a'r Cynllun Diwydiant Adeiladu

Mae'r Cynllun Diwydiant Adeiladu (CIS) yn gyfres o reolau arbennig ar gyfer delio gyda thaliadau a wneir gan gontractwyr i isgontractwyr am waith adeiladu. Os ydych yn gweithio yn y diwydiant adeiladu neu'n gwneud gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu efallai bod angen i chi gofrestru gyda CThEM fel naill ai contractwr neu is-gontractwr o dan CIS.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth p'un a yw CIS yn gymwys i'r gwaith rydych yn ei wneud ai peidio, mae'n syniad da i wirio.

Am wybodaeth bellach ewch i **www.businesslink.gov.uk/cis** neu gallwch ffonio Ganolfan Gyswllt Cymraeg CThEM ar **0845 302 1489**

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'Construction Industry Scheme', ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Treth Ar Werth (TAW)

Mae TAW yn dreth a godir ar y mwyafrif o drafodion busnes-i-fusnes a busnes-i-ddefnyddiwr yn y DU.

Mae'n **rhaid** i chi gofrestru ar gyfer TAW os yw eich trosiant mewn unrhyw gyfnod o 12 mis dros derfyn penodol - cynyddir y terfyn fel arfer yn flynyddol yng Nghyllideb y Canghellor - neu os ydych yn credu y gall eich trosiant fynd dros y terfyn hwn yn fuan. Gallwch gofrestru'n wirfoddol unrhyw bryd.

Gellir gwneud y mwyafrif o geisiadau cofrestru TAW ar-lein. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/vat/start/register/how-to-register.htm**

Unwaith rydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, bydd angen i chi lenwi a chyflwyno ffurflenni TAW yn rheolaidd ar-lein, a thalu TAW sy'n ddyledus drwy ddull electronig.

O 1 Ebrill 2010, bydd yn rhaid i bob busnes newydd sy'n cofrestru ar gyfer TAW ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw gyflwyno'u ffurflenni treth ar-lein a thalu TAW sy'n ddyledus drwy ddull electronig. Mae CThEM yn darparu manylion llawn ar sut i wneud hyn yn y pecyn cofrestru TAW a anfonir allan i'r holl gwsmeriaid TAW sydd newydd gofrestru.

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/payinghmrc/vat.htm** neu i wylio fideo ar-lein byr ar 'VAT' a 'Importing and exporting' ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Cyflogi pobl eraill

Os ydych yn bwriadu cyflogi pobl eraill, byddwch – ymhlith pethau eraill – yn gyfrifol am gyfrifo a thalu treth TWE (Talu Wrth Ennill) a chyfraniadau Yswiriant Gwladol eich cyflogeion i CThEM. Bydd angen i chi hefyd dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A y Cyflogwr.

Cyn y gallwch wneud hyn bydd angen i chi gofrestru fel cyflogwr gyda CThEM a dewis a sefydlu system gyflogres. Am wybodaeth ynglŷn â phryd y dylech gofrestru fel cyflogwr ac am gysylltiad i'r ffurflen gofrestru ar-lein, ewch i **www.businesslink.gov.uk/payeregister**

Am gymorth gyda dewis pa system gyfloges allai fod yr un orau ar gyfer eich busnes, ewch i **www.businesslink.gov.uk/payrollsystem**

Mae CThEM hefyd wedi datblygu cyfres o Offer TWE Sylfaenol. Mae'r Offer yn cynnwys nifer o gyfrifiannau a'r mwyafrif o ffurflenni y bydd eu hangen arnoch i redeg eich cyflogres drwy gydol y flwyddyn. Gallwch lawrlwytho'r Offer TWE Sylfaenol, sydd ar gael ym mis Chwefror 2011, o **www.businesslink.gov.uk/basicpayetools**

Mae pethau eraill y mae angen i chi wybod, fel sicrhau bod eich gweithwyr yn gymwys i weithio yn y DU, eich rhwymedigaethau i'r cyflog lleiafswm cenedlaethol a sicrhau eich bod yn defnyddio'r cod treth cywir ar gyfer eich cyflogeion. Am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn a phopeth sydd yn ymwneud â chyflogres ar gyfer y cyflogwr, ewch i **www.businesslink.gov.uk/paye**

Fel cyflogwr, bydd yn rhaid i chi ddweud wrth CThEM am symiau'r dreth a'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi eu didynnu yn ystod bob blwyddyn dreth ar Ddatganiad Blynyddol y Cyflogwr. Mae'n rhaid i bron a bod bob cyflogwr gyflwyno'r wybodaeth hon ar-lein ac, o 6 Ebrill 2011, bydd yn rhaid iddynt hefyd gyflwyno ar-lein ffurflenni a ddefnyddir pan mae cyflogeion yn cychwyn neu'n gorffen eu swydd. Am ragor o wybodaeth ar gyflwyno ar-lein ewch i **www.businesslink.gov.uk/payeonlinefiling**

I wylio'r fideo ar-lein byr 'Employing Other People' ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Lwfansau, rhyddhad a chymhellion

Mae yna lwfansau, rhyddhad a chymhellion all fod o ddefnydd i'ch busnes. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk**

I wylio'r fideo ar-lein byr 'Business Allowances' ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**

Credydau treth

Gall pobl hunangyflogedig a phobl gyflogedig dderbyn credydau treth. Taliadau gan y llywodraeth yw credydau treth. Mae dau fath o gredyd treth - Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant.

Os ydych am wirio p'un a ydych yn gymwys ar gyfer credydau treth ai peidio, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0845 302 1489**. Gallwch hefyd ddefnyddio holiadur ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk/taxcreditsquestionnaire** i wirio p'un a ydych yn gymwys ar gyfer credydau treth ai peidio cyn gwneud cais.

Os ydych eisoes yn derbyn credydau treth ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg i ddweud wrthynt eich bod yn cychwyn hunangyflogaeth a bod eich incwm am newid. Byddai o gymorth petaech yn gallu rhoi amcangyfrif iddynt o beth ydych yn meddwl fydd eich incwm.

Cofiwch os ydych yn mynd o fod yn gyflogedig i fod yn hunangyflogedig ac rydych eisoes yn hawlio credydau treth, ystyrir hyn fel newid mewn amgylchiadau a bydd angen i chi hysbysu'r Swyddfa Credydau Treth neu ffonio'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg.

Ei wneud ar-lein

Gwasanaethau ar-lein

Trwy'r daflen hon byddwch wedi sylwi ar nifer o gyfeiriadau at wefannau a chyfleusterau ar-lein. Dyw hi erioed wedi bod yn haws i reoli eich busnes ar-lein, ac mae ystod o wasanaethau gwahanol ar gael gan CThEM i'ch helpu cyn i chi gychwyn. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/online** am ragor o wybodaeth.

Mae angen i chi gyflwyno'ch Datganiad Blynyddol y Cyflogwr a'ch Ffurflenni TAW ar-lein. O Ebrill 2011 bydd yn rhaid i gyflogwyr gyda llai na 50 o gyflogeion gyflwyno'u ffurflenni cychwyn a gadael (P45, P46 ac ati) i CThEM ar-lein.

Mae CThEM hefyd yn argymell eich bod yn cwblhau eich ffurflenni treth Hunanasesiad ar-lein oherwydd ei fod yn ddull diogel a gallwch ei wneud ar adeg sy'n gyfleus i chi. Gallwch hefyd stopio, ei harbed a dychwelyd ati unrhyw bryd y dymunwch.

I ganfod mwy am gyflwyno eich ffurflen Hunanasesiad ar-lein ewch i **www.hmrc.gov.uk/sa/file-online.htm**

Cymorth gyda chyfrifiaduron a TG

Mae rhaglen y llywodraeth, Cyflawni Arfer Gorau yn eich Busnes, yn helpu busnesau bychain i ddefnyddio TG. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk**

Cael rhagor o gymorth

Cymorth sydd ar gael

Mae sawl ffynhonnell gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gael i bobl sy'n cychwyn busnes newydd. Does neb yn disgwyl i chi wybod sut i wneud popeth.

Wyneb yn wyneb

Cewch gymorth a chyngor gan Dimau Busnes Addysg a Chefnogaeth CThEM. Gallant eich darparu â chyngor defnyddiol ynglŷn â pha gofnodion i'w cadw, sut i gwblhau ffurflenni treth a sut i dalu Yswiriant Gwladol. Mae CThEM hefyd yn cynnal digwyddiadau 'Diwrnodau Agored Cyngor i Fusnes' a 'Gair i Gyflogwr'. Mae'r rhain yn darparu ystod o gynhyrchion addysgol a chefnogaeth am ddim i fusnesau. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/bst**

Asiantau menter a siambrau masnach

Mae asiantau menter a siambrau masnach hefyd yn cynnig cefnogaeth. Os ydych yn 18-30 mlwydd oed, efallai gallwch gael cymorth gan Ymddiriedolaeth y Tywysog. Yn ogystal, mae elusen o'r enw PRIME yn cynnig cymorth i'r rhai dros 50 mlwydd oed.

Canolfan Byd Gwaith

Os ydych yn ddi-waith, dywedwch wrth eich Canolfan Byd Gwaith eich bod yn meddwl am weithio i chi eich hun. Efallai gallant gynnig cymorth.

Cael rhywun arall i'w wneud ar eich rhan

Gall cyfrifydd eich helpu i drefnu eich busnes i'w wneud mor fuddiol yn ariannol i chi â phosib. Ceir gwybodaeth a chyngor ynghylch sut i ddewis cyfrifydd yn **www.businesslink.gov.uk**

Am ragor o wybodaeth

Am gymorth gyda'r Hunanasesiad ewch i **www.hmrc.gov.uk/sa** neu ffoniwch **0845 302 1489**

Am gymorth gyda chyfraniadau Yswiriant Gwladol ewch i **www.hmrc.gov.uk/working** neu ffoniwch **0845 302 1489**

I wneud cais i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol, lawrlwythwch **www.hmrc.gov.uk/nic/ca5603.pdf** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/ni/volcontr**

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â thalu Yswiriant Gwladol ar gyfer cyfarwyddwyr cwmni lawrlwythwch **www.hmrc.gov.uk/nitables/ca44.pdf**

Am gymorth gyda Threth Gorfforaeth, ewch i **www.hmrc.gov.uk/ct** neu os oes angen i chi gysylltu â'ch swyddfa CThEM ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus** am ragor o wybodaeth

Am gymorth gyda'r Cynllun Diwydiant Adeiladu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cis** neu ffoniwch **0845 302 1489**

Am gymorth gyda TAW ewch i **www.hmrc.gov.uk/vat** neu ffoniwch **0845 010 0300**

Am gymorth gyda dyletswyddau Tollau neu Ecseis ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch **0845 010 0300**

Ar gyfer y Newydd Hunangyflogedig ewch i **www.hmrc.gov.uk/startingup** neu ffoniwch **0845 915 4515**

Cyflogwyr ewch i **www.hmrc.gov.uk/employers** neu ffoniwch y llinell gymorth Cyflogwyr Newydd ar **0845 302 1489**

Ar gyfer yr isafswm cyflog cenedlaethol ffoniwch **0800 917 2368**

Am gymorth gyda chredydau treth ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch **0845 302 1489** neu anfonwch neges testun at **0845 300 3909**

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chychwyn busnes newydd ewch i **www.hmrc.gov.uk/startingup** neu ffoniwch **0845 915 4515**

Mae cymorth cyffredinol ar gael

Cyswllt Busnes

Mae Cyswllt Busnes yn wasanaeth a gyllidir gan y llywodraeth sy'n darparu'r wybodaeth, cyngor a chefnogaeth sydd ei angen arnoch i gychwyn, cynnal ac ehangu busnes. Yn hytrach na rhoi'r holl gymorth a'r cyngor ei hunan, mae Cymorth Busnes yn eich rhoi mewn cysylltiad â'r arbenigwyr lleol sydd eu hangen arnoch.

Ewch i **www.businesslink.gov.uk** neu ffoniwch **0845 600 9006** am ragor o wybodaeth.

Mae hefyd gwybodaeth gyffredinol ar gael drwy:

Cymru: Cymorth Hyblyg i Fusnes
ewch i **www.fs4b.wales.gov.uk**
neu ffoniwch **0300 060 3000**

Lloegr: Business Link ewch i
www.businesslink.gov.uk
neu ffoniwch **0845 600 9006**

Yr Alban ('Lowlands'): Small Business Gateway ewch i **www.bgateway.com** neu ffoniwch **0845 609 6611**

Yr Alban ('Highlands'): Highlands and Islands Enterprise Information Source ewch i **www.hie.co.uk**
neu ffoniwch **0146 371 5400**

Gogledd Iwerddon: Invest NI
ewch i **www.investni.com**
neu ffoniwch **0289 023 9090**

Canllawiau yn unig yw'r nodiadau hyn ac maent yn adlewyrchu'r sefyllfa pan y'u hysgrifennwyd. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Cyhoeddwyd gan Gyllid & Thollau EM
Cyfathrebu a Masnachu
Ionawr 2011
© Hawlfraint y Goron 2010